



Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

2010 mccc 2

Nodiadau Esboniadol

Social Care Charges (Wales) Measure 2010

2010 nawm 2

Explanatory Notes

£5.75

MESUR CODI FFIOEDD AM WASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2010

NODIADAU ESBONIADOL

RHAGYMDRODD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 a gafodd ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Ionawr 2010 a'i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 17 Mawrth 2010. Cawsant eu paratoi gan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo darlennydd y Mesur. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur ond nid ydynt yn rhan ohono.
2. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynghylch codi ffioedd gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl. Gellir gweld cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar y mater hwn ym mater 15.1 ym Maes 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ("GOWA 2006"). Mewnosodwyd mater 15.1 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2008 ar 9 Gorffennaf 2008 ac (fel y'i diwygiwyd) mae'n caniatáu i'r Cynulliad ddarparu ynghylch:

"Ffioedd a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir neu a sicrhewr ganddynt a thaliadau ar gyfer unigolion ag anghenion sy'n ymwneud â'u lles fel bod modd iddynt hwy, neu i unrhyw berson arall, sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu'r anghenion hynny."

SYLWEBAETH AR ADRANNAU

Adran 1 –: Pŵer cyffredinol i godi ffioedd am wasanaethau gofal

3. Mae is-adrannau 1(1) a (2) yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth y caniateir codi ffi amdano godi ffi am y gwasanaeth hwnnw am y cyfryw swm ag y mae'n ystyried sy'n rhesymol (i gael disgrifiad o'r gwasanaethau y caniateir codi ffi amdanynt y mae'r Mesur yn ymwneud â hwy gweler y nodiadau ar adran 13). Ond mae adran 1(3) yn gwneud darpariaeth i'r pŵer hwn fod yn ddarostyngedig i nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol y cyfeirir atynt yn is-adrannau (3) sef:
 - darpariaethau adran 2 ar uchafswm y ffioedd;
 - darpariaethau adran 3 ynghylch personau a gwasanaethau na chaniateir gosod ffioedd ynglŷn â hwy;

SOCIAL CARE CHARGES (WALES) MEASURE 2010

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Social Care Charges (Wales) Measure 2010 which was passed by the National Assembly for Wales on 19 January 2010 and approved by Her Majesty in Council on 17 March 2010. They have been prepared by the Directorate General for Health and Social Services of the Welsh Assembly Government to assist the reader of the Measure. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but are not part of it.
2. The Measure makes provision about charging by local authorities for non-residential social care services. The Assembly's competence to legislate on this matter is found in matter 15.1 in Field 15 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 (c.32) ("GOWA 2006"). Matter 15.1 was inserted by the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare) Order 2008 of 9 July 2008 and (as amended) permits the Assembly to make provision about:

"Charges levied by local authorities for social care services provided or secured by them and payments in respect of individuals with needs relating to their well-being so that they, or any other person, may secure social care services to meet those needs".

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – General power to charge for care services

3. Section 1(1) and (2) provide that a local authority in Wales providing a chargeable service may charge for that service such amount as it considers reasonable (for a description of the chargeable services to which the Measure relates see the notes on section 13). Section 1(3) provides that this power shall be subject, however, to a number of legislative provisions referred to in subsection (3) which are:
 - the provisions of section 2 on maximum charges;
 - the provisions of section 3 about persons and services in respect of which charges must not be imposed;
 - the provisions of section 8(1) (effect of determinations as to ability to pay); and
 - any regulations made by the Welsh Ministers under section 16 of the Community Care (Delayed Discharges etc) Act 2003 (free provision of services in Wales).

- darpariaethau adran 8(1) (effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu); ac
 - unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) (darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddi-dâl) 2003.
4. Mae is-adrannau (4) a (5) yn darparu pŵer i awdurdod lleol adennill ffi am wasanaethau y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt ac yn enwedig i'w adennill fel dyled sifil mewn achos llys.

Adran 2 – Uchafswm y ffioedd

5. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (2) wrth iddynt ystyried beth yw ffi resymol am wasanaeth y caniateir codi ffi amdano.
6. Mae is-adran (2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rheoli'r hyn yw ffi resymol neu'n cyfyngu arni. Mae is-adran (3) yn rhoi enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon. Mae'n cynnwys darpariaeth sy'n pennu'r uchafswm y caiff awdurdod lleol ei godi am wasanaeth penodol y caniateir codi ffi amdano neu am unrhyw gyfuniad o wasanaethau y caniateir codi ffi amdanynt a darpariaeth sy'n cadarnhau uchafswm ffi fesul awr neu fesul wythnos.

Adran 3 – Personau a gwasanaethau na chaniateir gosod ffioedd ynglŷn â hwy

7. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n eithrio personau neu wasanaethau penodol y caniateir codi ffi amdanynt rhag y gyfundrefn codi ffi. Mae is-adrannau 2(a) a (b) yn rhoi enghreifftiau o'r modd y gellir diffinio categorïau o bersonau sy'n cael eu heithrio; gwneir hyn drwy gyfeirio at eu hoedran neu at dderbyn taliadau, cyfleusterau neu wasanaethau penodedig. Mae is-adran 2(c) yn darparu y caniateir eithrio categorïau o wasanaethau y caniateir codi ffi amdanynt drwy gyfeirio at (ymhlith pethau eraill) y cyfnod o amser pan ddarperir hwy.

Adran 4 – Gwahoddiad i ofyn am asesiad modd

8. Mae adran 4A(1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wahodd defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth i ofyn am asesiad modd pan fydd yn cynnig gwasanaeth y caniateir codi ffi amdano neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi hynny. Mae hefyd yn rhoi rhwymedigaeth ar awdurdod lleol y darperir gwasanaeth i berson y caniateir codi ffi amdano i roi gwahoddiad yn yr achosion a nodir yn y rheoliadau.
9. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth, pan fo'n ofynnol rhoi gwahoddiad, na all awdurdod lleol osod na newid ffi oni bai bod gofynion penodol wedi'u bodloni. Y gofynion yw bod y gwahoddiad wedi'i roi ac, os ymatebwyd iddo yn unol â'r darpariaethau i'w nodi mewn rheoliadau, fod yr awdurdod wedi cynnal asesiad modd ac wedi gwneud penderfyniad ynghylch y gallu i dalu.

4. Subsections (4) and (5) provide a power for a local authority to recover a charge for services to which this Measure applies, and in particular to recover it as a civil debt in court proceedings.

Section 2 – Maximum charges

5. Subsection (1) requires local authorities to act in accordance with regulations made by Welsh Ministers under subsection (2) when considering what is a reasonable charge for a chargeable service.
6. Subsection (2) gives the Welsh Ministers the power to make regulations controlling or limiting what will be a reasonable charge. Subsection (3) gives examples of the type of provision that may be included in regulations made under this section. This includes provision setting out the maximum that a local authority may charge for a particular chargeable service or for any combination of chargeable services and provision establishing a maximum hourly or weekly charge.

Section 3 – Persons and services in respect of which charges must not be imposed

7. This section enables the Welsh Ministers to make regulations excluding certain persons or chargeable services from the charging regime. Subsection (2)(a) and (b) gives examples of how categories of excluded persons may be defined; this includes by reference to their age or the receipt of certain payments, facilities or services. Subsection (2)(c) provides that categories of chargeable services may be excluded by reference to (among other things) the period of time for which they are provided.

Section 4 – Invitation to request means assessment

8. Section 4(1) places a duty on local authorities to invite a service user or prospective service user to request a means assessment when it offers a chargeable service or as soon as reasonably practicable thereafter. It also places an obligation on a local authority, where a person is being provided with a chargeable service, to issue an invite in such cases as may be specified in regulations.
9. Subsection (2) provides that where an invitation is required to be given, a local authority may not impose or alter a charge unless certain requirements are met. These are that the invitation has been given and that, where it has been responded to in accordance with provisions to be set out in regulations, the authority has carried out a means assessment and made a determination as to ability to pay.
10. This section also gives the Welsh Ministers the power to set out in regulations the form and content of invitations and the manner in which they are to be made.

Section 5 – Duty to carry out a means assessment

11. Subsection (1) imposes a duty on local authorities to carry out an assessment of the means of a service user or prospective service user where the conditions set out in section 6 are met. Subsection (2) disapplies this duty in such cases as may be specified in regulations made under that subsection. Subsection (5) disapplies the

10. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau ffurf a chynnwys gwahoddiadau a'r dull o roi'r gwahoddiadau hynny.

Adran 5 – Dyletswydd i gynnal asesiad modd

11. Mae is-adran (1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad ar fodd defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth pan fo'r amodau a nodir yn adran 4C wedi'u bodloni. Mae is-adran (2) yn datgymhwyso'r ddyletswydd hon yn yr achosion a nodir yn y rheoliadau a wnaed o dan yr is-adran honno. Mae is-adran (5) yn datgymhwyso'r ddyletswydd yn yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (5) oni bai bod rheoliadau a wnaed o dan yr is-adran honno yn gwneud darpariaeth i'r gwrthwyneb.
12. Mae is-adrannau (3) a (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau ynghylch sut dylid cynnal asesiadau modd.

Adran 6 – Amodau sy'n arwain at y ddyletswydd i gynnal asesiad modd

13. Mae'r adran hon yn nodi'r amodau sy'n arwain at ddyletswydd awdurdod lleol i gynnal asesiad modd, fel y nodir yn adran 5(1). Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn y rheoliadau ynghylch pwy gaiff wneud y cais am asesiad modd neu roi unrhyw wybodaeth ariannol angenrheidiol ar ran defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth.

Adran 7 – Penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu

14. Mae is-adran (1) yn gymwys pan fo asesiad modd yn cael ei gynnal. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu, yng ngoleuni'r asesiad, a yw'n rhesymol ymarferol i'r defnyddiwr gwasanaeth dalu'r ffi safonol. Os nad yw, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu pa ffi (os o gwbl) y byddai'n rhesymol ymarferol iddynt ei thalu.
15. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1) yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed yn rheoliadau Gweinidogion Cymru. Mae is-adran (3) yn rhoi rhai enghreifftiau o sut y gellid arfer y pŵer hwn.
16. Mae is-adran (4) yn diffinio'r term 'ffi safonol', y cyfeirir ato yn is-adran (1) ac yn adran 10.

Adran 8– Effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu

17. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi effaith i unrhyw benderfyniad a wneir o ran gallu defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth i dalu am wasanaeth y caniateir codi ffi amdano.
18. Mae is-adrannau (2) a (3) yn gwneud darpariaeth ynghylch dyddiad gweithredu'r penderfyniadau.

duty in the circumstances set out in subsection (5), unless regulations made under that subsection make provision to the contrary.

12. Subsections (3) and (4) enable the Welsh Ministers to make regulations as to how means assessments must be carried out.

Section 6 – Conditions giving rise to the duty to carry out a means assessment

13. This section sets out the conditions which give rise to the local authorities' duty to carry out a means assessment, as referred to at section 5(1). It also enables the Welsh Ministers to make provision in regulations as to who may make the request for a means assessment or provide any necessary financial information on behalf of a service user or prospective service user.

Section 7 – Determinations as to ability to pay

14. Subsection (1) applies where a means assessment is carried out. It requires a local authority to determine, in the light of the assessment, whether it is reasonably practicable for the service user to pay the standard charge. If it is not, the local authority is required to determine what (if anything) it would be reasonably practicable for them to pay.
15. Subsection (2) requires the local authority to discharge its duties under subsection (1) in accordance with provision made in regulations by the Welsh Ministers. Subsection (3) gives some examples of how this power might be exercised.
16. Subsection (4) defines the term 'standard charge', as referred to in subsection (1) and in section 10.

Section 8 – Effect of determinations as to ability to pay

17. Subsection (1) requires local authorities to give effect to any determination made as to the ability of a service user or a prospective service user to pay for a chargeable service.
18. Subsections (2) and (3) make provision as to the date from which determinations shall have effect.
19. Subsections (4) and (5) are concerned with the date from which replacement determinations shall have effect.

Section 9 – Replacement by authority of determinations as to ability to pay

20. Subsection (1) provides that a local authority may replace a determination with a new determination if any of the conditions set out in subsection (4) has been met. Subsection (4)(d) gives the Welsh Ministers power to make regulations prescribing other conditions.

19. Mae is-adrannau (4) a (5) yn ymwneud â dyddiad gweithredu'r penderfyniadau newydd.

Adran 9 – Awdurdod yn disodli penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu

20. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff awdurdod lleol ddisodli penderfyniad â phenderfyniad newydd os yw unrhyw un neu ragor o'r amodau a nodir yn is-adran (4) wedi eu bodloni. Mae is-adran (4)(d) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau yn nodi amodau eraill.
21. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth, pan fo rhwymedigaeth ar awdurdod lleol i roi gwahoddiad i ofyn am asesiad modd, na all ddisodli penderfyniad sydd eisoes yn bodoli hyd nes i'r gofynion a nodir yn adran (3) gael eu bodloni.
22. Mae is-adran (3) yn sicrhau na chaiff y penderfyniad newydd fod yn wahanol i'r penderfyniad y mae'n ei ddisodli ond i'r graddau y bernir ei fod yn briodol yng ngoleuni'r materion yn is-adran (4) (amodau gwneud penderfyniad newydd).

Adran 10 – Darparu gwybodaeth am ffioedd

23. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i'r rheini sy'n derbyn, neu a gaiff dderbyn, gwasanaeth y caniateir codi ffi amdano a'r rheini y maent yn penderfynu codi ffi arnynt.
24. Mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddwyn yr wybodaeth ganlynol i sylw personau sy'n derbyn gwasanaeth y caniateir codi ffi amdano neu a gaiff dderbyn gwasanaeth o'r fath:
- gwybodaeth ynghylch pa wasanaethau y codir ffi amdanynt a'r rhai na chodir ffi amdanynt;
 - gwybodaeth ynghylch y “ffi safonol” am wasanaethau gwahanol (fel y'i diffinnir yn adran 7(4)); a
 - gwybodaeth ynghylch profi modd.
25. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid darparu'r wybodaeth gyffredinol hon mewn ystod o fformatau hygyrch, a hynny'n rhad ac am ddim.
26. Mae is-adrannau (4) a (5) yn ymwneud â gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei rhoi i bersonau y maent yn penderfynu gosod ffi arnynt. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig ac mewn unrhyw fformat hygyrch arall y mae'r person yn rhesymol yn gwneud cais amdani. Rhaid ei darparu yn ddi-dâl, a chyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad penderfynu gosod neu newid ffi.

21. Subsection (2) provides that where a local authority is obliged to issue an invitation to request a means assessment it may not replace an existing determination until the requirements set out in section 4(3) have been met.
22. Subsection (3) ensures that the new determination may differ from the determination it replaces only to the extent considered appropriate having regard to the matters in subsection (4) (the conditions for making the new determination).

Section 10 – Provision of information about charges

23. This section requires local authorities to provide information to those who receive, or may receive, a chargeable service and to those whom they decide to charge.
24. Subsections (1) and (2) require local authorities to make arrangements to bring the following information to the attention of persons who receive, or may receive, a chargeable service:
 - information about which services are charged for and which are not;
 - information about the “standard charge” (as defined in section 7(4)) for different services; and
 - information about means testing.
25. Subsection (3) provides that this general information must be provided in a range of accessible formats and free of charge.
26. Subsections (4) and (5) deal with the information that local authorities must provide to persons on whom they decide to impose a charge. This information must be provided in writing and in any other accessible format the person reasonably requests. It must be provided free of charge and within 21 days of the date on which the decision to impose or alter a charge was made.

Section 11 – Reviews of charging decisions

27. This section gives the Welsh Ministers the power to make regulations concerning the arrangements that local authorities must make for reviewing charging decisions. Subsection (2) gives examples of the type of provision that may be included in regulations made under this section. This includes provision concerning an individual’s right to request a review, the process an individual must follow to exercise that right and the procedures an authority must follow in conducting the review. Provision may also be made as to who may request a review on behalf of another person.

Section 12 – Direct payments

28. This section applies where a local authority makes direct payments to an individual under section 57 of the Health and Social Care Act 2001. The section must be read in conjunction with section 57 of the 2001 Act and the regulation making powers contained in that section.

Adran 11 – Adolygu penderfyniadau ar godi ffioedd

27. Mae'r adran yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud i adolygu penderfyniadau ar godi ffioedd. Mae is-adran (2) yn rhoi enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â hawl unigolyn i ofyn am adolygiad, y broses y mae'n rhaid i unigolyn ei dilyn i arfer yr hawl honno a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i awdurdod eu dilyn wrth gynnal yr adolygiad. Caniateir gwneud darpariaeth hefyd ynghylch pwy a gaiff ofyn am adolygiad ar ran person arall.

Adran 12 – Taliadau uniongyrchol

28. Mae'r adran hon yn berthnasol pan fo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i unigolyn o dan adran 57 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001. Rhaid darllen yr adran ar y cyd ag adran 57 o Ddeddf 2001 a'r pwerau llunio rheoliadau yn yr adran honno.
29. Mae is-adrannau (2) a (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am daliadau uniongyrchol sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth a wneir, neu y caniateir ei gwneud, o dan adrannau 1-11 o'r Mesur hwn. Mae is-adran (4) yn rhoi enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan reoliadau o'r fath (mae'r enghreifftiau hyn yn cyfateb i'r ddarpariaeth a wneir gan yr adrannau blaenorol). Mae is-adran (5) yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn yr adran.

Adran 13 – Gwasanaethau y caniateir codi ffioedd amdanynt

30. Mae'r adran hon yn pennu'r gwasanaethau y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt a diffinnir y gwasanaethau hyn fel "gwasanaethau y caniateir codi ffi amdanynt". Y gwasanaethau hyn y caniateir codi ffi amdanynt yw'r gwasanaethau hynny a ddarperir o dan y deddfiadau a bennir yn is-adran (2). Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau lles i bersonau oedrannus a hyglwyf megis gofal cartref, canolfannau gofal dydd, golchi dillad, trafndiaeth a phrydau bwyd. Cafodd gwasanaethau gofal preswyl eu heithrio o ystod y Gorchymyn galluogi Cymhwysedd Deddfwriaethol ac o'r herwydd cawsant eu heithrio o'r Mesur hwn.
31. Yn ddarostyngedig i gyfyngiadau mater 15.1 ym Maes 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae adran 13(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i ychwanegu gwasanaeth at adran 13(2) neu ddiwygio neu ddileu'r disgrifiad o wasanaeth a gynhwysir ynddi am y tro. Mae adran 17(7) yn gwneud darpariaeth y bydd gorchymyn o'r fath yn gorfod dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

29. Subsections (2) and (3) give Welsh Ministers the power to make regulations about direct payments which make provision corresponding to the provision which is made, or may be made, under sections 1 to 11 of this Measure. Subsection (4) gives examples of the type of provision which may be made under such regulations (these examples correspond to the provision made by the preceding sections). Subsection (5) defines certain terms used in the section.

Section 13 – Chargeable services

30. This section sets out the services to which this Measure applies and these services are defined as the “chargeable services”. These chargeable services are those services provided under the enactments specified in subsection (2). These include welfare services to elderly and vulnerable persons such as home care, day care centres, laundry, transport and meals. Residential care services were excluded from the scope of the enabling Legislative Competence Order and hence have been excluded from this Measure.
31. Subject to the restraints of matter 15.1 in Field 15 of Schedule 5 to GOWA 2006, section 13(3) enables the Welsh Ministers by order to add a service to, or to amend or remove the description of a service which is for the time being included in, section 13(2). Section 17(7) provides that such an order will be subject to the affirmative procedure.

Section 14 – Amendments to the Health and Social Services and Social Security Adjudications Act 1983

32. This section amends the legislation under which local authorities in England and Wales currently charge for non-residential care services. It provides that, except in relation to services provided under section 2 of the Carers and Disabled Children Act 2000 in the form of residential care, section 17 of the Health and Social Services and Social Security Adjudications Act 1983 shall apply only to an authority in England. For local authorities in Wales, section 17 will continue to apply only in relation to services provided under section 2 of the Carers and Disabled Children Act 2000 in the form of residential care. In the case of non-residential services the charging regime will be governed by this Measure and regulations to be made under the Measure.

Section 15 – Amendment to the Local Authority Social Services Act 1970

33. This section amends the Local Authority Social Services Act 1970. The 1970 Act makes provision concerning the exercise of social services functions, including a requirement that Welsh local authorities in exercising their social services functions comply with guidance and directions issued by the Welsh Ministers. For the purposes of the 1970 Act social services functions are those functions under enactments specified in Schedule 1 to the Act. Section 15 adds specified sections of this Measure to that list of enactments in Schedule 1, and in so doing makes charging for local authority welfare services a social services function for the purposes of the 1970 Act.

Adran 14 – Diwygio Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983

32. Mae'r adran hon yn diwygio'r ddeddfwriaeth y mae awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn Lloegr ar hyn o bryd yn codi ffi am wasanaethau gofal dibreswyl oddi tani. Mae'n darparu, ac eithrio o ran gwasanaethau a ddarperir o dan adran 2 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 ar ffurf gofal preswyl, y bydd adran 17 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 yn gymwys i awdurdod yn Lloegr yn unig. Ar gyfer awdurdodau lleol yn Nghymru, bydd adran 17 yn parhau i fod yn gymwys o ran gwasanaethau a ddarperir o dan adran 2 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 ar ffurf gofal preswyl yn unig. Yn achos gwasanaethau dibreswyl caiff y drefn godi ffioedd ei llywodraethu gan y Mesur hwn a chan reoliadau sydd i'w gwneud o dan y Mesur.

Adran 15 – Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970

33. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae Deddf 1970 yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gofyniad bod awdurdodau lleol Cymru wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn cydymffurfio â chanllawiau a chyfarwyddiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. At ddibenion Deddf 1970 swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yw'r swyddogaethau hynny o dan y deddfiadau a bennir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf. Mae adran 15 yn ychwanegu adrannau penodedig o'r Mesur hwn at y rhestr honno o ddeddfiadau yn Atodlen 1 ac wrth wneud hynny mae'n peri bod codi ffioedd am wasanaethau lles awdurdodau lleol yn swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion Deddf 1970.

Adran 16 – Diwygio Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001

34. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 drwy gynnwys adran 57(7B) newydd i dynnu sylw darllenwyr at fodolaeth y Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) a'r ddarpariaeth ychwanegol ynddo o ran taliadau uniongyrchol yng Nghymru.

Adran 17 – Gorchmynion a rheoliadau

35. Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch is-ddeddfwriaeth (gorchmynion a rheoliadau) a wneir o dan y Mesur.
36. Mae is-adran (1) yn darparu, pan fydd Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi gan y Mesur i wneud gorchmynion neu reoliadau, maent i'w gwneud drwy offerynnau statudol. Mae hyn yn golygu bod darpariaethau Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys i'r gorchmynion a'r rheoliadau hynny, gan gynnwys gofynion ynghylch eu cyhoeddi. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff gorchmynion neu reoliadau a wneir o dan y Mesur wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a chânt gynnwys darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau darfodol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed.

Section 16 – Amendment to the Health and Social Care Act 2001

34. This section amends the Health and Social Care Act 2001 by the insertion of a new section 57(7B) to alert readers to the existence of the Social Care Charges (Wales) Measure and the additional provision contained within it in respect of direct payments in Wales.

Section 17 – Orders and regulations

35. This section contains general provision about subordinate legislation (orders and regulations) made under the Measure.
36. Subsection (1) provides that where the Welsh Ministers are empowered by the Measure to make orders or regulations, these are to be made by statutory instrument. This means that the provisions of the Statutory Instruments Act 1946 are applied to such orders and regulations, including requirements about publication. Subsection (2) provides that orders or regulations made under the Measure may make different provision for different purposes and may include incidental, supplementary, consequential, transitory, transitional or saving provisions.
37. Subsection (3) confers on the Welsh Ministers the power by order to make provisions that are necessary or expedient for the purposes of the Measure, or in consequence of, or to give effect to, any provision of the Measure. Subsection (4) provides that such an order may amend, repeal or revoke any provision of an Act of Parliament, an Assembly Measure or subordinate legislation. Subsections (5) to (7) set out the Assembly procedure to which a statutory instrument made under the Measure will be subject. Orders that amend Acts or Measures will need to be approved by resolution of the National Assembly for Wales, as will any order made under section 13(3).

Section 18 – Commencement and interpretation

38. Subsection (1) defines the term “local authority” for the purposes of the Measure.
39. Subsections (2) and (3) provide that sections 17 to 19 will come into force two months following approval of the Measure by Her Majesty in Council and that the remaining provisions will be brought into force in accordance with provision to be made by the Welsh Ministers by order. Subsection (4) provides that an order under subsection (3) may provide for provisions of the Measure to come into force on different days for different purposes.

37. Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy orchymyn i wneud darpariaethau sydd yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Mesur, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Mesur neu er mwyn rhoi effaith iddi. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff gorchymyn o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol, Mesur Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth. Mae is-adrannau (5) i (7) yn nodi gweithdrefn y Cynulliad y bydd offeryn statudol a wneir o dan y Mesur yn ddarostyngedig iddi. Bydd angen i orchymynion sy'n diwygio Deddfau neu Fesurau gael eu cymeradwyo drwy gael eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yn achos unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 13(3).

Adran 18 – Cychwyn a dehongli

38. Mae is-adran (1) yn diffinio'r term “awdurdod lleol” at ddibenion y Mesur.
39. Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu bod adran 17 i 19 yn dod i rym ddau fis ar ôl i'r Mesur gael ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor a bod gweddill y darpariaethau yn cael eu dwyn i rym yn unol â darpariaeth sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. Mae is-adran (4) yn gwneud darpariaeth y caiff gorchymyn o dan is-adran (3) wneud darpariaeth i ddarpariaethau'r Mesur ddod i rym ar ddiwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

COFNOD O DAITH Y MESUR DRWY GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cam o daith y Mesur drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyflwyno'r Mesur	29 Mehefin 2009
Cyfnod 1 - Trafod	10 Tachwedd 2009
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu- ystyried gwelliannau	3 Rhagfyr 2009
Cyfnod 3 Trafod	19 Ionawr 2010
Cyfnod 4 Trafod	19 Ionawr 2010
Cymeradwyaeth Frenhinol yn y Cyfrin Gyngor	17 Mawrth 2010

*These notes refer to the Social Care Charges (Wales) Measure 2010 (nawm 2)
which received approval by Her Majesty in Council on 17 March 2010*

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

The following table sets out the dates for each stage of the Measure's passage through the National Assembly for Wales.

Measure introduced	29 June 2009
Stage 1 - Debate	10 November 2009
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	3 December 2009
Stage 3 Debate	19 January 2010
Stage 4 Debate	19 January 2010
Royal Approval in Council	17 March 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Reprinted with corrections – April 2010

Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)
ac mae ar gael oddi wrth:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
book.orders@theso.co.uk
<http://www.ukstate.com>

Siopau Llyfrau The Stationery Office
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Gwefan: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office)
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
E-mail: customer.service@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

TSO Shops
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO @ Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-10512-4



9 780348 105124